**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1430
Ein cyf LN/10515/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Ebrill 2025

Annwyl Carolyn,

Yn fy llythyr atoch ar 20 Rhagfyr ynglŷn â niferoedd Athrawon y Byddar, addewais ddarparu rhagor o wybodaeth am ffordd ymlaen ar y mater pwysig hwn.

Mae ymarferwyr addysg medrus fel Athrawon y Byddar yn rhan hanfodol o'r gweithlu addysg ac yn hanfodol i lwyddiant ein diwygiadau i'r Cwricwlwm a threfniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ar 13 Ionawr, cyhoeddais ein bod yn datblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg a fydd yn nodi ffordd strategol ymlaen ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau difrifol sy'n wynebu ein sector addysg, gan gynnwys problemau recriwtio a chadw staff, pwysau llwyth gwaith, a rôl esblygol athrawon wrth gefnogi anghenion amrywiol dysgwyr. Bydd yn ymgorffori ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ar gyfer arweinwyr, athrawon a staff cymorth ar gyfer y dyfodol, gan gydnabod yr amrywiaeth o rolau pwysig o fewn gweithlu ysgolion.

Rwyf wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y cynnydd wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'n hawdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.